**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**12 MEDI 2018**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Dydd Mercher, 12 Medi 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Paul Cunningham (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Janet Axworthy, Haydn Bateman, Marion Bateman, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, David Cox, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Vicky Perfect, Neville Phillips, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Martin White, David Wisinger ac Arnold Woolley

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Sean Bibby, Derek Butler, Rosetta Dolphin, Andy Dunbobbin, David Healey, Gladys Healey, Christine Jones, Hilary McGuill, Mike Reece, Michelle Perfect, Owen Thomas, Andy Williams a David Williams

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraeth); Prif Swyddog (Addysg a Ieuenctid); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd; Rheolwr Cyllid Dros Dro (Cyfrifyddiaeth Technegol) a Chyfrifydd Technegol; Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd; Swyddog Gwasanaethau Democrataidd; a'r Parchedig David Poulton i weddïo. (Ar gyfer cofnod rhif 38) Richard Harries a Mike Whiteley o Swyddfa Archwilio Cymru.

## 29. CYFLWYNIADAU

Crwydriaid Cei Connah (Connah’s Quay Nomads)

Croesawodd y Cadeirydd John a Roma Gray, Ray Brown, a Jay Catton, i gydnabod bod Crwydriaid Cei Connah wedi cyrraedd Cynghrair Europa am y trydydd tro yn olynol, a’u bod wedi ennill Cwpan Cymru 2018

Rhoddodd y Prif Weithredwr wybodaeth gefndirol a chyfeiriodd at werth ac at werthfawrogiad y gwaith a wneir gan Glwb Crwydriaid Cei Connah o safbwynt ei waith allgymorth cymunedol a gwaith cyfranogi, datblygu pêl-droed a’i waith partneriaeth gyda’r Awdurdod, Cymdeithas Pêl-droed Cymru, ysgolion Sir y Fflint a Choleg Cambria. Llongyfarchodd Clwb Crwydriaid Cei Connah ar eu llwyddiant a gwahoddodd Aelodau i fynegi eu diolch i gynrychiolwyr y Clwb.

Soniodd y Cadeirydd am ei fwynhad o wylio Crwydriaid Cei Connah yn chwarae eu gêm gartref gyntaf yn ddiweddar a llongyfarchodd y Tîm am guro Falkirk yng Nghwpan Irn Bru yn ddiweddar.

Soniodd y Cynghorydd Aaron Shotton am gamp aruthrol Clwb Crwydriaid Cei Connah yn rownd derfynol Cwpan Cymru. Cyfeiriodd at y gwaith gwych mae'r perchnogion, aelodau o'r Bwrdd a'r tîm hyfforddi wedi ei wneud er mwyn datblygu'r Clwb yn y blynyddoedd diweddar. Cyfeiriodd y Cynghorydd Shotton hefyd at ddatblygiad a llwyddiant 3G y Cei oedd wedi cyfrannu at ddatblygiad Crwydriaid Cei Connah a thimau ieuenctid eraill ar draws y Sir ac at y rhaglen Academi Ieuenctid. Llongyfarchodd y Clwb ar ei lwyddiant a dymunodd yn dda i'r clwb ar gyfer y dyfodol.

Mynegodd y Cynghorydd Paul Shotton ei longyfarchion hefyd i'r Clwb am ei lwyddiant ac i Andy Morrison a gafodd ei enwi fel Rheolwr y Mis gan Uwchgynghrair Cymru .

Talodd y Cynghorydd Ian Dunbar deyrnged i lwyddiant Crwydriaid Cei Connah a dywedodd bod y Clwb yn ased arbennig i Gei Connah.

Ategodd y Cynghorydd Martin White y sylwadau a wnaed gan Aelodau a dywedodd ei fod wedi bod yn falch o fynychu rownd derfynol Cwpan Cymru gyda'i deulu i gefnogi'r Clwb. Diolchodd i'r Clwb am adael i gefnogwyr lleol fynd a'r Tlws ar daith o amgylch lleoliadau yng Nghei Connah a Shotton a dywedodd bod y gymuned leol wedi gwerthfawrogi hyn. Dymunodd yn dda i'r Clwb ar gyfer y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson at ei gysylltiad hir dymor â Chlwb Crwydriaid Cei Connah yr oedd yn ei werthfawrogi'n fawr, a llongyfarchodd y Clwb ar ei lwyddiant.

Ar ran Clwb Crwydriaid Cei Connah diolchodd Mr John Grey i Aelodau am eu geiriau o gydnabyddiaeth a'u cefnogaeth.

## 30. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2018.

Cywirdeb
Tudalen 4, eitem 16, dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraeth) bod y Cynghorydd David Mackie wedi datgan cysylltiad ag eitem 14 ar y Rhaglen – Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiynau Clwyd, fel aelod o Gronfa Bensiynau Clwyd, ond nid oedd hyn wedi ei gofnodi.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 31. DATGAN CYSYLLTIAD

Nododd y Prif Swyddog y byddai datganiad personol yn cael ei gofnodi ar ran yr Aelodau canlynol o safbwynt eitem 12 ar y Rhaglen, 'Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru: Diweddariad Ariannol ac Ymgynghoriad 2019-20', fel aelodau o'r Awdurdod Tân:

Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Ian Dunbar, Veronica Gay, Paul Shotton, Owen Thomas a David Wisinger.

Datganodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson gysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu ag eitem 6 ar y Rhaglen, Deisebau – tynnu gwasanaeth bws Siopwyr Bwcle yn ôl.

## 32. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Roedd copi o Gyhoeddiadau'r Cadeirydd wedi ei ddosbarthu cyn y cyfarfod. Soniodd y Cadeirydd yn benodol am ymweliad Plant Chernobyl, Gwasanaeth Eglwys Chernobyl a Pharti Ffarwel Plant Chernobyl. Mynegodd ei werthfawrogiad i drigolion Sir y Fflint a Swydd Caer a groesawodd ac a ddarparodd lety i'r plant yn eu cartrefi eu hunain yn ystod yr ymweliad.

## 33. DEISEBAU

Cyflwynodd Jean Davies ddeiseb ar gyfer ffordd liniaru ar gyfer traffig trwm y chwarel o Bentre Halkyn.

Cyflwynodd y Cynghorwyr Carol Ellis a Mike Peers ddeisebau gan drigolion Bwcle i wrthwynebu colli'r gwasanaeth bws Siopwyr Bwcle ac fe wnaethant amlinellu'r effaith y byddai'n ei gael ar drigolion Bwcle a hyfywedd Canol y Dref.

## 34. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd dim.

## 35. CWESTIYNAU

Ni dderbyniwyd dim.

## 36. RHYBUDD O GYNNIG

Roedd y Rhybudd o Gynnig canlynol wedi ei dderbyn gan y Cynghorydd Tony Sharps:

<u>Mae'r Cyngor yn galw ar y Prif Weithredwr i sicrhau bod y Prif Swyddogion a'r Uwch Swyddogion yn ymateb i geisiadau'r Cynghorwyr yn gwrtais a heb fwy o oedi na sy'n rhaid.</u>

Gan gefnogi ei Gynnig, cyfeiriodd y Cynghorydd Sharps at bryderon yr oedd wedi eu mynegi yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 18 Mai 2017, ar yr amser y mae rhai adrannau yn ei gymryd i ymateb i faterion a phryderon sy'n cael eu codi gan Aelodau a dywedodd fod y Prif Weithredwr wedi cytuno y byddai cyfres o safonau'n cael eu creu er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd. Dywedodd y Cynghorydd Sharps bod peth gwelliant wedi bod, fodd bynnag, nododd nifer o faterion penodol oedd wedi codi yn ei Ward lle'r oedd y gwasanaethau a ddarparwyd gan yr Awdurdod wedi bod yn is na'r safon oedd yn ofynnol gan drigolion Sir y Fflint. I grynhoi pwysleisiodd y Cynghorydd Sharps yr

angen am well ymgynghori a chyfathrebu gydag Aelodau o ran darpariaeth gwasanaeth.

Siaradodd y Cynghorydd Mike Peers i gefnogi'r Cynnig a dywedodd ei fod yn anodd bodloni anghenion a disgwyliadau trigolion lleol pan nad oedd y cyngor neu'r ymateb oedd ei angen gan adrannau i faterion a godwyd gan Aelodau yn cael ei gyflwyno neu ddim yn cael ei ddarparu o fewn amserlen dderbyniol.

Dywedodd y Cynghorydd Clive Carver bod y broblem gydag amser ymateb yn broblem hanesyddol ac roedd yn cytuno gyda'r farn a fynegwyd gan y Cynghorydd Sharps bod angen gweithredu ar frys er mwyn mynd i'r afael â'r mater. Awgrymodd bod y mater yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu er mwyn i'r pwyllgor hwnnw wneud penderfyniad.

Cefnogodd y Cynghorydd Carol Ellis y Cynnig ac amlinellodd ei phrofiad personol o oedi wrth dderbyn ymateb i faterion yr oedd wedi eu codi ar ran ei thrigolion lleol. Siaradodd am yr effaith negyddol a'r rhwystredigaeth pan oedd trigolion yn methu derbyn ateb i'w pryderon a'u cwestiynau a chyfeiriodd at yr amser sy'n cael ei wastraffu pan fydd Aelodau'n gorfod mynd ar ôl pobl er mwyn derbyn ymateb i gysylltiadau a cyfathrebu.

Siaradodd y Cynghorydd Helen Brown hefyd am yr angen am ymatebion amserol, cywir i'r materion a godwyd gan Aelodau a dywedodd fod y rhain yn aml yn ymwneud â cheisiadau gan drigolion lleol sydd angen cyngor a chymorth ar frys.

Dywedodd y Cynghorydd Aaron Shotton ei fod yn cefnogi'r Cynnig gan y Cynghorydd Sharps, fodd bynnag, dywedodd fod angen cydnabod yr arferion gwaith da a'r ymgysylltu a'r ymatebion positif a ddarperir gan yr Awdurdod mewn sawl maes gwasanaeth oedd yn digwydd yn amlach nac enghreifftiau lle'r oedd hyn yn is na'r safon yr oedd yr Awdurdod am ei ddarparu. Fe wnaeth gydnabod y pryderon gwirioneddol oedd rhai Aelodau wedi eu mynegi ar faterion oedd wedi codi yn eu Wardiau a dywedodd bod angen edrych ar ac adolygu'r protocol cyfredol.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn ei ymateb i'r Cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Tony Sharps wedi gosod nifer o gamau gweithredu er mwyn adnewyddu'r safonau a gwella eu perfformiad. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi trafod y pryderon cyffredinol a godwyd gan y Cynghorydd Sharps ar y cyd gyda Phrif Swyddogion a byddai'r materion penodol a godwyd yn cael eu trafod yn y meysydd gwasanaeth perthnasol. Gan gyfeirio at y Safonau, dywedodd y Prif Weithredwr bod amserlenni penodol yn eu lle ac y dylai Aelodau a'r cyhoedd dderbyn cydnabyddiaeth i ymholiad o fewn 5 diwrnod gwaith ac ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith ar gyfer ymholiadau cyffredinol. Os oedd ymholiad yn un mwy cymhleth ei natur mae'n bosib y byddai'n cymryd mwy na 10 diwrnod gwaith i ddarparu ymateb boddhaol a dylid rhoi gwybod i'r person oedd yn gwneud yr ymholiad y byddai'r amser ymateb yn hirach o ganlyniad i'r wybodaeth oedd ei angen.

Dywedodd y Prif Weithredwr os oedd gan Aelodau gwyn bwysig neu gymhleth y dylent gysylltu ag ef neu Brif Swyddog a rhoi gwybod iddynt am y mater. Gofynnodd hefyd i Aelodau rannu unrhyw bryderon oedd ganddynt gydag

ef, y Prif Swyddog perthnasol neu Uwch Reolwr, am unrhyw broblemau oedd yn codi droeon o ran cysylltu gyda neu gael ymateb gan faes gwasanaeth, tîm, neu unigolyn penodol, fel y gellid datrys y mater. Mewn ymateb i awgrym gan y Cynghorydd Clive Carver, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn y dyfodol er mwyn darparu diweddariad ar waith a wnaed ar y Safonau. Cytunodd y Prif Weithredwr i ddarparu copi i Aelodau o'r safonau gwaith sy'n berthnasol i swyddogion a'r camau gweithredu sydd i'w cymryd i'w diweddaru.

Wrth gydnabod y pryderon a fynegwyd gan y Cynghorydd Tony Sharps, dywedodd y Prif Weithredwr bod tystiolaeth wedi bod ar adegau fod Aelodau wedi bod yn amharchus ac anghwrtais tuag at swyddogion a phwysleisiodd yr angen i Aelodau a swyddogion fel ei gilydd i gadw at y safonau o ymddygiad a ddisgwylir. Dywedodd hefyd, tra gallai Aelodau dderbyn ymateb, mae'n bosib na fyddai'r ymateb hwnnw yn ddatrysiad i'r achos, a dywedodd bod rhaid datrys materion cyfreithiol cymhleth a hirwyntog mewn rhai achosion. I grynhoi dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cael ymrwymiad gan Brif Swyddogion y byddai staff yn cael eu dwyn i gyfrif lle'r oedd tystiolaeth o gŵyn gyfiawnadwy a phwysleisiodd bod cyfrifoldeb ar bawb i gynnal y Safonau. Ategodd y camau gweithredu sydd i'w cymryd sy'n ymwneud â'r Safonau, a'r angen sydd ar aelodau i rannu gwybodaeth gydag ef neu gyda Phrif Swyddogion ynglŷn â thanberfformio fel y gellid mynd i'r afael â'r broblem.

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y gofynnir i Aelodau gymeradwyo'r Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Sharps. Darllenodd y Cadeirydd y Rhybudd o Gynnig ac o gael pleidlais, pleidleisiwyd yn unfrydol o blaid y Cynnig.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Tony Sharps yn cael ei gefnogi.

## 37. CYDNABYDDIAETH I IAN BANCROFT

Y Cadeirydd oedd y cyntaf i gydnabod y cyfraniad a wnaed i'r Cyngor gan Ian Bancroft, Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol) a adawodd yr Awdurdod ym mis Awst 2018 i ymuno â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Soniodd y Prif Weithredwr am rinweddau personol Ian, ei frwdfrydedd a'i egni, ac y byddai hiraeth amdanynt, yn ogystal â'i allu proffesiynol. Adlewyrchodd ar y 4 blynedd y bu Ian gyda'r Awdurdod a soniodd am effaith gadarnhaol yr hyn oedd Ian wedi ei gyflawni o safbwynt darparu newid sefydliadol a'i arbenigedd a'i sgil o ran gwthio prosiectau drwy strategaeth i dasg a gorffen. Roedd yn edrych ymlaen at weithio gydag Ian yn y dyfodol fel Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adfywio ardal blaendraeth y Fflint a dywedodd bod gwaith a brwdfrydedd Ian wedi gwthio'r prosiect yn ei flaen a bod hynny yn cael ei werthfawrogi yn fawr gan Bwyllgor Adfywio Cyngor Tref y Fflint.

Talodd y Cynghorydd Aaron Shotton deyrnged i Ian am ei weledigaeth a'i waith yn ystod ei wasanaeth gyda'r Awdurdod oedd wedi cynnal gwasanaethau ac wedi cryfhau cymunedau lleol, a hynny yn ystod caledi parhaus. Cyfeiriodd at brofiad proffesiynol Ian, ei sgil, ei steil a'i ddull arloesol, a soniodd am y gwaith roedd wedi ei wneud wrth drosglwyddo Pwll Nofio Cei Connah o ofal yr Awdurdod i Cambrian Aquatics, a throsglwyddo gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd yr Awdurdod i Aura Leisure and Libraries Limited, fel enghreifftiau o'r llwyddiant roedd Ian wedi ei gael drwy weithio gyda'r cymunedau lleol i ddatblygu modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau. Dywedodd y Cynghorydd Shotton ei fod yn edrych ymlaen at weithio gydag Ian a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar lefel ranbarthol yn y dyfodol, ac ar y Cais Twf.

Siaradodd y Cynghorydd Paul Shotton fel aelod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol a mynegodd ef hefyd ei ddiolch i Ian am ei brofiad a'i arbenigedd proffesiynol. Cyfeiriodd at yr hyder a'r sicrwydd roddodd Ian i'r Pwyllgor wrth eu sicrhau mai darparu gwasanaeth drwy fodelau darparu amgen a throsglwyddiadau asedau cymunedol oedd y ffordd orau i ddiogelu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Dymunodd bob llwyddiant i Ian yn ei rôl newydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Soniodd y Cynghorydd Mike Peers am y cymorth a'r cyngor roedd Ian wedi ei roi yn hael ar faterion oedd yn ymwneud â newid sefydliadol a throsglwyddiadau asedau cymunedol. Llongyfarchodd Ian ar ei benodiad a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Tudor Jones at drosglwyddiad ased gymunedol llwyddiannus Canolfan Hamdden Treffynnon. Soniodd am effaith y broses o drosglwyddiadau asedau cymunedol yn gyffredinol a oedd, yn Nhreffynnon, wedi darparu llyfrgell newydd, canolfan hamdden wedi ei hadfywio, canolfan ffitrwydd a chrefft ymladd yn hen adeilad y llyfrgell, yn ogystal â chytundeb cymunedol rhwng y Ganolfan Hamdden ac Ysgol Treffynnon ar gyfer rheoli'r anodd y tu allan i oriau arferol. Aeth y Cynghorydd Jones ymlaen i ddweud bod gan Dreffynon, ar y cyd a Chyngor y Dref, y capasiti i barhau i ddarparu'r holl fanteision hyn a bod grym cydweithio a chydnabyddiaeth newydd yn bodoli bod y broses yn fwy na'r trosglwyddiadau unigol a reolir. Dywedodd bod Sir y Fflint a Threffynnon wedi cyflawni datblygiad sylweddol, oedd wedi ei arwain yn grefftus gan Ian a'i dîm am dros flwyddyn. Dywedodd y Cynghorydd Jones y byddai cymunedau'n dod yn fwy cryf o ganlyniad i'r gwaith oedd wedi ei wneud a diolchodd i Ian a'i dîm am ei waith a'r etifeddiaeth lwyddiannus oedd yn parhau. Dymunodd yn dda i Ian yn ei yrfa yn y dyfodol.

Mynegodd y Cynghorydd Chris Bithell ei ddiolch a'i werthfawrogiad am holl waith Ian yn Sir y Fflint. Dywedodd bod gwasanaeth gwerthfawr wedi eu cynnal er gwaetha caledi, drwy ddarparu modelau amgen, trosglwyddiadau asedau cymunedol ac ymgysylltu â chyrff a mudiadau gwirfoddol. O ganlyniad roedd darpariaeth gwasanaeth i gymunedau yn Sir y Fflint yn parhau mewn ffurf newydd ac roedd yr Awdurdod yn falch o beth sydd wedi ei gyflawni. Cydnabyddodd y Cynghorydd Bithell sgiliau a rhinweddau Ian oedd wedi golygu llwyddiant yn wyneb unrhyw heriau neu broblemau gan grwpiau neu unigolion. Llongyfarchodd Ian ar ei benodiad gan ddweud ei fod yn edrych ymlaen at weithio gydag Ian drwy gydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn y dyfodol.

Diolchodd y Cynghorydd Ron Davies i Ian am y gwaith roedd wedi ei wneud gyda Theatr Clwyd, ac yn benodol am y gwaith roedd wedi ei wneud o safbwynt y broses o recriwtio cyfarwyddwr Artistig a Chyfarwyddwr Gweithredol. Dymunodd yn dda i Ian yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Carol Ellis bod Ian, yn ei phrofiad hi, bob amser yn barod i helpu ac i ddarparu cyngor a chymorth y tu hwnt i ddisgwyliadau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Kevin Hughes at drosglwyddo ased gymunedol Canolfan Bentref Gwernymynydd a diolchodd i Ian am ei waith ar y prosiect hwn. Ategodd y sylwadau a fynegwyd eisoes gan Gynghorwyr a soniodd am lwyddiant trosglwyddiad Pwll Nofio Cei Connah i Cambrian Aquatics.

Dywedodd y Cynghorydd Billy Mullin ei fod wedi bod yn fraint gweithio gydag Ian a thalodd deyrnged i'w allu personol a phroffesiynol.

Talodd y Cynghorwyr Ted Palmer a Dave Mackie deyrngedau pellach i Ian a dywedyd bod y gwaith yr oedd wedi ei wneud wedi symud yr Awdurdod ymlaen a galluogi'r broses o ddarparu gwasanaeth i barhau gyda syniadau newydd. Diolchodd y Cynghorydd Mackie i Ian am y gwaith roedd wedi ei wneud gyda Theatr Cymru a dywedodd y byddai'n croesawu'r cyfle i'r Awdurdod weithio gydag Ian a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar faterion rhanbarthol yn y dyfodol.

Wedi cyflwyniad gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor, diolchodd Ian i Aelodau a Swyddogion am eu geiriau caredig a dywedodd ei fod wedi mwynhau ei amser yn Sir y Fflint a gweithio gyda'r Awdurdod. Dywedodd, gan fod her caledi yn parhau, dim ond wrth i awdurdodau lleol weithio'n galed gyda'i gilydd fel grŵp 'teuluol' gyda chymunedau lleol, Aelodau a swyddogion y gellid dod o hyd i ffordd ymlaen er mwyn darganfod datrysiad i aelodau a defnyddwyr gwasanaeth i ddarparu a gwarchod gwasanaethau cyhoeddus. Dymunodd bob llwyddiant i Sir y Fflint yn y dyfodol a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Awdurdod eto. Dywedodd Ian ei bod yn fraint gweithio yn y gwasanaeth cyhoeddus a diolchodd i'r Awdurdod am ei brofiadau yn ystod ei gyfnod yn Sir y Fflint.

## 38. DATGANIAD CYFRIFON 2017/18 A'R WYBODAETH ARIANNOL ATODOL I'R DATGANIAD CYFRIFON 2017/18.

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol Richard Harries a Mike Whiteley o Swyddfa Archwilio Cymru, Paul Vaughan, Rheolwr Cyllid Technegol dros dro a Richard Lloyd-Bithell, Cyllid Corfforaethol.

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fersiwn derfynol Datganiad Cyfrifon 2017/18 i'w gymeradwyo wedi i'r Pwyllgor Archwilio ei ystyried cyn cyfarfod y Cyngor Sir heddiw. Roedd wedi cael ei gynghori bod yr adroddiad yn cynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol a oedd wedi ei ystyried yn flaenorol gan y Pwyllgor Archwilio mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2018 ac roedd angen cymeradwyaeth y Cyngor arno.

Adroddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol mai 30 Medi oedd y dyddiad cau statudol blynyddol ar gyfer cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon blynyddol ar hyn o

bryd , fodd bynnag y mae’r rheoliadau y mae’r Datganiad Cyfrifon yn cael eu paratoi oddi tanynt yn newid o flwyddyn ariannol 2018/19, sy’n golygu fod yn rhaid cymeradwyo’r cyfrifon erbyn 15 Medi. Paratowyd Datganiad Cyfrifon 2017/18 yn llwyddiannus erbyn y dyddiad cau cynharach hwn er mwyn paratoi ar gyfer 2018/19.

Cyfeiriodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol at adroddiad 260 Swyddfa Archwilio Cymru ar Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISA). Dywedodd fod yn rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyfathrebu materion perthnasol yn ymwneud ag archwilio'r datganiadau ariannol i’r rheiny sy’n llywodraethu’r endid (Cyngor Sir Y Fflint ar gyfer Datganiadau’r Cyngor Sir). Eglurodd bod yr adroddiad eleni ar ffurf cyflwyniad er mwyn ceisio gwella hygyrchedd, a bod copi o’r adroddiad wedi ei atodi at yr adroddiad. Parhaodd y Rheolwr Corfforaethol gan ddweud bod newidiadau a gytunwyd gyda Swyddfa Archwilio Cymru wedi eu gwneud i Ddatganiad Cyfrifon 2017/18 yn ystod yr archwiliad, a bod y newidiadau yn cael eu dangos yn atodiad 2 yr adroddiad. Eglurodd bod y newidiadau’n ymwneud â phwrpas datgelu yn unig ac nad oeddynt yn effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi adrodd bod y Datganiad Cyfrifon wedi ei baratoi i safon dda gyda phapurau gwaith cynhwysfawr wedi eu hatodi. Nodwyd rôl barhaus y Grŵp Llywodraethu Cyfrifon, sydd â throsolwg dros gynhyrchiad cyffredinol y Datganiad Cyfrifon, a’i fod wedi bod yn effeithiol am y 2 flynedd diwethaf.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod Llythyr Sylwadau Cyngor Sir Y Fflint at Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei atodi i’r adroddiad a chadarnhaodd bod y wybodaeth yn y datganiadau ariannol yn wir ac yn gywir a bod yr holl wybodaeth wedi ei ddatgelu i’r archwilwyr.

Cyflwynodd Mr Richard Harries, Arweinydd Ymgysylltu Archwiliad Ariannol ar gyfer Cyngor Sir y Fflint ei hun a'i gydweithiwr sef Mike Whiteley o Swyddfa Archwilio Cymru. Rhoddodd Mr Harries gyflwyniad bras, ac yn wahanol i’r arfer, cyflwynodd adroddiad Safon Ryngwladol ar Archwilio 260 drwy gyfrwng cyflwyniad oedd yn cynnwys y prif bwyntiau canlynol:

- canlyniad cyffredinol
- Cyfrifoldebau’r Archwilydd Cyffredinol
- sefyllfa’r archwiliad a materion yn codi o’r archwiliad
- 2018-19 a’r blynyddoedd dilynol

Wrth ddod a’i gyflwyniad i ben, crynhodd Mr Harries y prif ganfyddiadau a dywedodd bod yr archwiliad wedi mynd yn dda ac nad oedd materion arwyddocaol oedd angen eu dwyn i sylw’r Cyngor. . Diolchodd i’r Rheolwr Cyllid Corfforaethol, y Rheolwr Cyllid Technegol dros dro a’r Tîm Cyllid am eu gwaith ar y cyfrifon ac am y cymorth a’r gefnogaeth yn ystod y broses archwilio.

Diolchodd y Prif Weithredwr i Mr Harries am ei gyflwyniad ac am y lefel uchel o sicrwydd a roddwyd i'r Cyngor ei bod wedi bod yn flwyddyn gadarnhaol o safbwynt cyfrifeg ac na chodwyd cwestiynau pellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio oedd wedi ei gynnal cyn y Cyngor Sir. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at Ddatganiad Cyfrifon Cronfa Bensiynau Clwyd, yr oedd cymeradwyaeth ar ei gyfer wedi ei ddirprwyo i Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, a dywedodd bod y rhain

wedi eu cymeradwyo yn ffurfiol gan y Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2018.

Siaradodd y Prif Weithredwr yn gadarnhaol am berchnogaeth gorfforaethol y cyfrifon ac am y berthynas waith broffesiynol dda oedd yn bodoli rhwng y Cyngor a'i archwilwyr allanol, oedd yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol. Diolchodd y Prif Weithredwr i dîm Swyddfa Archwilio Cymru, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Cyllid dros dro a'r Tîm Cyllid am eu gwaith ar y cyfrifon.

Dywedodd y Cynghorydd Helen Brown bod y Pwyllgor Archwilio wedi ystyried Datganiad Cyfrifon 2017/18 mewn cyfarfod a gynhaliwyd cyn cyfarfod y Cyngor Sir. Roedd swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn bresennol ac wedi cyflwyno ac egluro eu canfyddiadau. Roedd swyddogion Ariannol yr Awdurdod wedi darparu diweddariad ar y cyfrifon drafft oedd wedi eu hystyried yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio. Eglurwyd rôl a phwysigrwydd Grwpiau Llywodraethu Cyfrifon y swyddogion a'r newid i'r polisi cyfrifo ar gronni incwm a gwariant, a chyfeiriwyd at newidiadau i gyfrifon y Cyngor ers i'r drafft gael ei gyhoeddi. Nododd y Cynghorydd Brown nad oedd problemau na chwestiynau i'r Cyngor gan y Pwyllgor Archwilio ar ôl ystyried cyflwyniad Swyddfa Archwilio Cymru ar y Datganiad Cyfrifon.

Diolchodd y Cynghorydd Brown i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i dîm, Swyddfa Archwilio Cymru, a phawb fu'n rhan o gwblhau'r gwaith ar Ddatganiad Cyfrifon 2017/18 yn llwyddiannus cyn y dyddiad cau statudol blynyddol. Cynigiodd y Cynghorydd Brown y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad ac eiliodd y Cynghorydd Billy Mullin.

Cododd y Cynghorydd Mike Peers nifer o ymholiadau ar Ddatganiad Cyfrifon 2017/18. Gofynnodd am fwy o wybodaeth am yr Incwm Treth Cyngor ychwanegol o £526,000 a gofynnodd pe gellid rhoi hwn yn y Cyfrif Refeniw yn hytrach na'r Cyfrif wrth Gefn. Mynegodd bryder am y ddyled Treth Cyngor o £2.7 miliwn ac awgrymodd bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn adolygu hyn. Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at dudalen 65 yr adroddiad a dywedodd nad oedd ffigwr wedi ei ddyfynnu ar gyfer yr elw o fuddsoddiadau hirdymor a byrdymor. Cyfeiriodd at fandiau tâl ysgolion a gofynnodd i swyddogion ddarparu mwy o wybodaeth ar gyflog un aelod o staff. Ar dudalen 69 yr adroddiad cyfeiriodd y Cynghorydd Peers at Ddatganiadau Cysylltiad Cofrestr y Swyddogion a gofynnodd a oes cofrestr gyhoeddus yn bodoli, fel sydd ar gyfer Aelodau, er mwyn dangos unrhyw ddatganiadau a wneir gan swyddogion. Cwestiwn am ôl ddyledion rhent oedd y cwestiwn olaf a holwyd gan y Cynghorydd Peers, dywedodd ei fod wedi cynyddu i £1.5 miliwn ac awgrymodd y dylid mynd a'r mater hwn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol er mwyn ei adolygu ymhellach. Ymatebodd y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog (Llywodraethu), y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Rheolwr Cyllid dros dro mewn manylder i'r cwestiynau a'r pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Peers.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau bleidleisio ar yr argymhellion yn yr adroddiad ac ar ôl pleidleisio, cymeradwywyd yr argymhellion.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Cymeradwyo fersiwn terfynol Datganiad Cyfrifon 2017/18;

(b) Cymeradwyo’r Llythyr Sylwadau – Cyngor Sir y Fflint; a

(c) Nodi'r Wybodaeth Ariannol Atodol i Ddatganiad Cyfrifon 2017/18.

**39. AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU: DIWEDDARIAD ARIANNOL AC YMGYNGHORIAD 2019-20**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Simon Smith, Prif Swyddog, Helen McArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol a Sian Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mynegodd y Cadeirydd ei werthfawrogiad am y gwaith a wnaed gan Wasanaeth Tân Ac Achub Gogledd Cymru yn ystod y cyfnod hir o dywydd crasboeth a gafwyd yn ystod haf eleni.

Manteisiodd y Cynghorydd Tony Sharps ar y cyfle i fynegi ei ddiolchiadau personol i’r Gwasanaeth Tân ac Achub oedd wedi mynychu tân yn ei eiddo a diolchodd am gyflymder yr ymateb gan y criw yng Ngorsaf Dân Queensferry a'r gwaith arbennig a wnaethant i reoli’r sefyllfa a diogelu ei eiddo.

Croesawodd Mr Smith y cyfle i ddychwelyd i'r Cyngor a rhoddodd ymddiheuriadau ar ran Meirick Lloyd Davies, Cadeirydd yr Awdurdod, a Peter Lewis, Is Gadeirydd yr Awdurdod, a mynegodd eu bod am ddymuno'n dda i'r Aelodau a'r Awdurdod. Cyflwynodd Mr Smith Helen McArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (â chyfrifoldeb dros Adnoddau Corfforaethol) a Sian Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (â chyfrifoldeb dros Gynllunio Corfforaethol a meysydd eraill).

Cyfeiriodd Mr Smith at ymgynghoriad blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, a lansiwyd ar 11 Medi. Dywedodd fod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar yr adnoddau sydd ar gael i’r Awdurdod Tân ac Achub, y gyllideb, ac effaith cyfyngiadau ariannol parhaol a oedd hefyd yn effeithio ar awdurdodau lleol Gogledd Cymru. Dywedodd ei fod yn bwysig bod yr Awdurdod Tân ac Achub a’r awdurdodau lleol yn gweithio gyda’i gilydd ac yn deall yr heriau parhaol yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. O fewn y cyd-destun a'r cefndir hwn dywedodd Mr Smith ei fod yn bwysig bod yr Awdurdod Tân yn egluro'i sefyllfa gyfredol o safbwynt cyllideb yr Awdurdod Tân ac Achub a'i allu i ddarparu gwasanaethau. Aeth Mr Smith ymlaen i ddweud mai’r bwriad, ar ôl y cyflwyniad, oedd cael adborth anffurfiol gan y Cyngor ar yr ymgynghoriad, gydag adborth ffurfiol wedyn gan y Cyngor Sir erbyn y dyddiad cau sef 2 Tachwedd 2018.

Gwahoddodd Mr Smith Ms Sian Morris i roi cyflwyniad ar Gynllunio’r Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2019/20. Roedd prif bwyntiau’r cyflwyniad fel a ganlyn:

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru:
- beth mae’r Awdurdod yn ei ddarparu
- gwariant cyfredol
- ariannu gwasanaeth tân ac achub
- symud i 2019/20

Adroddodd Ms Morris ar ddyletswyddau allweddol yr Awdurdod Tân ac Achub oedd yno er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau er mwyn bodloni

gofynion arferol gweithredu a darparu'r gwasanaethau tân ac achub, er mwyn sicrhau bod digon o hyfforddiant a chyfarpar gan ymladdwyr tân, a bod pobl yn cael ateb ac ymateb wrth iddynt alw 999. Dywedodd Ms Morris fod yn rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio gyda deddfwriaeth a rheoliadau a dyfynnodd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, safonau'r Iaith Gymraeg, deddfwriaeth Iechyd A Diogelwch, rheoliadau ariannol, a deddfwriaeth cydraddoldeb fel rhai enghreifftiau.

Cyfeiriodd Ms Morris at y gwaith o gynnal gwasanaeth mewn gorsafoedd tân ac eglurodd bod 44 o orsafoedd tân drwy Ogledd Cymru. Dywedodd mai un peiriant tân ac un criw tân oedd yn y rhan fwyaf o orsafoedd ac yn bennaf mai ymladdwyr tân wrth gefn oedd y staff ymladd tân. Dywedodd bod staff yng ngorsafoedd tân Glannau Dyfrdwy, Wrecsam a'r Rhyl 24 awr y dydd, a bod 5 gorsaf arall lle oedd staff yno drwy gydol y dydd oedd yn gweithredu fel gorsafoedd wrth gefn dros nos. Gorsafoedd tân wrth gefn yw'r 36 gorsaf arall.

Rhoddodd Ms Morris drosolwg o'r argyfyngau a fynychwyd yng Ngogledd Cymru. Dywedodd bod yr Awdurdod Tân ac Achub drwy ei waith atal tanau wedi bod yn llwyddiannus gan leihau'r nifer o danau sy'n digwydd yng Ngogledd Cymru. Aeth ymlaen i ddweud bod yr Awdurdod Tân, drwy newidiadau polisi a gweithdrefnol hefyd wedi lleihau'r nifer o weithiau yr anfonwyd criwiau tân i fynychu larymau ffug. Fodd bynnag, eglurodd Ms Morris bod y nifer o argyfyngau nad oeddynt yn ymwneud â thân wedi cynyddu i adlewyrchu gwaith mwy amrywiol y gwasanaeth tân a chyfeiriodd at y gwaith ar y cyd â'r gwasanaeth ambiwlans fel enghraifft.

Ar ôl fideo byr ar Wasanaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru daeth cyflwyniad Ms Morris i ben wrth iddi gynghori bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn ddiweddar wedi adolygu ei weithrediadau ac wedi penderfynu peidio ymgynghori'r flwyddyn hon ar waredu unrhyw un o gerbydau'r gwasanaeth tân na lleihau criwiau tân.

Gwahoddwyd Ms Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol i roi cyflwyniad pellach ar ganlyniadau cyllid a chyllideb. Dywedodd Ms MacArthur y byddai'n adrodd ar wariant a chostau sylfaenol yr Awdurdod Tân gan gynnwys cymariaethau gydag Awdurdodau Tân ac Achub eraill a chyrff sector cyhoeddus Gogledd Cymru . Dywedodd y byddai hefyd yn manteisio ar y cyfle i amlinellu prosesau cyllido'r Awdurdod Tân ac Achub, eu defnydd o arian wrth gefn, ac amlygu'r heriau ar gyfer 2019/20. Gan gydnabod yr heriau ariannol yr oedd yn rhaid i awdurdodau lleol Gogledd Cymru hefyd fynd i'r afael â nhw, rhoddodd Ms MacArthur sicrwydd bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cymryd ei gyfrifoldebau ariannol o ddifrif, yn rheoli ei wariant gyda diwydrwydd a gofal priodol, a'i fod mor effeithiol â phosib.

Dywedodd Ms MacArthur mai £33.3 miliwn oedd gwariant yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2017/18. Rhoddodd fanylion gwariant a chyfeiriodd at brif feysydd costau gweithwyr (gwaith gweithredol rheng flaen, tân ac achub, atal, cymorth arbenigol), ariannu cyfalaf, a chyflenwyr (costau TGCh a chyfathrebu). Soniodd Ms MacArthur ar y pwysau gwaith sylweddol yr oedd yn rhaid i'r Awdurdod Tân ac Achub fynd i'r afael â nhw gan sôn am ddyfarniadau cyflog, gweithlu sy'n heneiddio, costau pensiwn, chwyddiant cyffredinol ym maes ariannu cyfalaf, a TGCh, fel enghreifftiau. Aeth Ms MacArthur ymlaen i gyflwyno

adolygiad hanesyddol o wariant rhwng 2010/11 a 2018/19 a dywedodd bod gwariant wedi codi o 8%. Adroddodd ar y camau gweithredu a gymerwyd er mwyn mynd i'r afael â chostau cynyddol a chyfeiriodd at yr arbedion a gyflawnwyd o gyllidebau staff a chyllidebau eraill, yr arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd drwy newid polisi a phwyslais parhaol ar leihau galw (atal), peth enillion annisgwyl, a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn.

Adroddodd Ms MacArthur ar y data cymharu a gyflwynwyd ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yng nghyd-destun cyllidebau refeniw awdurdod lleol a chyllidebau'r sector cyhoeddus ar y wybodaeth meincnodi a ddarparwyd o'u cymharu ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru.

Aeth Ms MacArthur ymlaen i gyflwyno dadansoddiad o gyfraniadau'r Cyngor Sir a gwariant net a dywedodd bod costau rhedeg yr Awdurdod Tân ac Achub, am y 3 blwyddyn ariannol ddiwethaf wedi bod yn uwch na chyfansymiau'r lefi a roddwyd ar gynghorau unigol. Ar gyfer 2019/20 roedd yr Awdurdod Tân wedi cyrraedd y pwynt lle na ellid defnyddio mwy o'u harian wrth gefn a byddai'n rhaid i'r costau rhedeg gael eu paru gan gyfraniadau gan awdurdodau lleol. £1.9 miliwn fyddai'r cynnydd mewn cyfraniadau ar draws yr awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn (yn ôl asesiad cynllunio cyfredol) a byddai'r gost uniongyrchol i Sir Fflint yn £420,000. Dywedodd Ms MacArthur na ddisgwylir iddi fod yn bosib cwrdd y cynnydd mewn cyfraniadau i'r Awdurdod Tân o gronfeydd mewnol wrth gefn, oherwydd y cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor, ac y byddai'n rhaid talu'r gost drwy gynnydd mewn treth cyngor. Byddai effaith y cynnydd ar gartref cyfartalog Band D gyfwerth â £6.53 ychwanegol yn 2019/20.

Diolchodd y Prif Weithredwr i Mr Simon Smith, Ms Sian Morris a Ms Helen MacArthur am eu cyflwyniad. Gwahoddwyd Aelodau i holi cwestiynau.

Gofynnodd y Cynghorydd Rita Johnson i swyddogion yr Awdurdod Tân ac Achub i ddarparu mwy o wybodaeth ar eu polisi diwygiedig ynglŷn â mynychu galwadau i achub anifeiliaid mawr. Rhoddodd Mr Simon Smith wybodaeth gefndirol ac eglurodd taw dyletswydd anstatudol oedd achub anifeiliaid mawr ac oherwydd y cyfyngiadau ariannol ar yr Awdurdod Tân ac Achub, penderfynwyd dwyn y gwasanaeth hwnnw i ben. Dywedodd na fu effaith wirioneddol ar gymuned Gogledd Cymru o ganlyniad. Mewn ymateb i gwestiwn pellach gan y Cynghorydd Clive Carver ynglŷn ag achub anifeiliaid, eglurodd Mr Simon Smith y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynychu galwad lle'r oedd anifeiliaid mewn damwain traffig ar y ffordd, defnyddiodd gludiant gwartheg a cheffylau byw fel enghraifft.

Talodd y Cynghorydd Ian Roberts deyrnged i waith Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a diolchodd i Mr Smith am y sicrwydd a'r gefnogaeth a roddwyd i drigolion Fflint oedd yn byw mewn adeiladau uchel wedi trychineb Tŵr Grenfell yn Llundain y llynedd. Diolchodd Mr Smith i'r Cynghorydd Roberts am ei adborth cadarnhaol a dywedodd y dylid canmol y Cyngor hefyd am ei waith ar adeiladu'r adeiladau yn y lle cyntaf a'r monitro parhaus a'r defnydd o adeiladau uchel yn y Fflint. Pwysleisiodd mai gwaith ataliol yw'r allwedd er mwyn cadw pobl yn ddiogel.

Soniodd Mike Peers am y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gan y rhaglen Phoenix ar gyfer troseddwyr ifanc a gofynnodd a oedd hyn yn dal yn mynd rhagddo ac a oedd wedi cyfrannu tuag at ostyngiad yn y nifer o danau a choswyd yng Ngogledd Cymru. Cyfeiriodd y Cynghorydd Peers hefyd at y data cymharu oedd wedi ei ddarparu ar Ganolbarth a Gorllewin Cymru, a De Cymru, a gofynnodd a fyddai'n bosib darparu data cymharu ar Gaer / Gorllewin Caer, a'r gost fesul pen fesul diwrnod. Cytunodd Mr Smith i ddarparu'r wybodaeth hon i'r Prif Weithredwr ar ôl y cyfarfod.

Diolchodd Mr Smith i'r Cynghorydd Peers am ei sylwadau cadarnhaol ar y rhaglen Phoenix a dywedodd bod Aelodau Cyngor Sir Y Fflint ac Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub yn cefnogi'r rhaglen. Rhoddodd amlinelliad bras o'r rhaglen Phoenix ac eglurodd bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rhaglen drwy grant. Dywedodd Mr Smith bod LIC wedi bod yn gefnogol iawn i'r rhaglen yn y gorffennol ac yn rhannu'r farn ei fod yn rhaglen dda oedd yn cael effaith hirdymor, a byddent am ei gweld yn parhau, er na ellid gwarantu'r rhaglen ar gyfer y dyfodol.

Siaradodd y Cynghorwyr Ian Dunbar a Paul Shotton yn gefnogol am Raglen Phoenix a'i llwyddiant, a hefyd am y prosiect Cymorth Cymunedol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Shotton at waith y tîm Cymorth Cymunedol a mynegodd ei siom fod arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith gwerthfawr wedi ei dynnu yn ôl a dywedodd y dylid adolygu'r sefyllfa.

Yn ei sylwadau wrth gloi atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau mai'r Awdurdod Tân ac Achub oedd â'r penderfyniad terfynol ar y gyllideb a osodwyd a byddai angen i Sir y Fflint dalu'r cyfraniad lefi oedd yn ofynnol gan awdurdodau lleol. Cyfeiriodd at y gweithdai cyllideb oedd i'w cynnal yr wythnos nesaf, a'r cymhlethdod ynghylch sut byddai'r Cyngor yn cyllido'r cyfraniad ychwanegol o £420,000 y dywedodd y gellid ei gyllido yn llawn neu'n rhannol gan Dreth Cyngor ychwanegol uwch ben gofyniad y Cyngor ei hun.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at ymgynghoriad yr Awdurdod Tân ac Achub ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2019/20 cyn iddi gael ei gosod ym mis Rhagfyr 2018, ac anogodd Aelodau i wneud cyfraniadau unigol i'r ymgynghoriad fel trigolion. Dywedodd y byddai staff, trigolion lleol a phartneriaid yn cael eu hannog i roi sylwadau ar yr ymgynghoriad er mwyn cael ymateb da gan ardal Sir y Fflint. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai ymateb corfforaethol hefyd yn cael ei roi i'r ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD:**

Cyflwyno ymateb corfforaethol i ymgynghoriad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
ar y gyllideb ddrafft erbyn 2 Tachwedd 2018.

## 40. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 yp a daeth i ben am 4.50 yp)

..................................................

**Cadeirydd**